PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP

PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

# Cynllun Gweithredu Rhywogaeth: Gorfanhadlen Lasgoch

## Cyflwyniad

### Maes

Dyma'r cynllun gweithredu rhywogaeth ar gyfer Gorfanhadlen Lasgoch, *Orobanch purpurea.* Bydd gwaith cadwraeth ar gyfer y rhywogaeth hon yn cynnwys gwella cyflwr ei chynefinoedd. Dylid ystyried y Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd perthnasol a restrir yn yr adran cynlluniau a pholisïau perthnasol isod wrth ar gyfer rheolaeth gyffredinol o'r cynefinoedd. Mae'r ddogfen hon yn adnabod gweithredoedd sy'n benodol ar gyfer Gorfanhadlen Lasgoch.

### Ein Gweledigaeth

I gynnal a gwella niferoedd, maint, ac ystod y poblogaethau o Gorfanhadlen Lasgoch yn Sir Benfro.

### Disgrifiad o'r Rhywogaeth

**Disgrifiad ac anghenion cynefinol**
Mae'r Gorfanhadlen Lasgoch yn rhywogaeth unflwydd neu ddyflwydd byr. Yn gyffredinol y mae'n barasit ar Filddail (*Achillea millefolium)*, er bod cofnodion o blanhigion lletyol eraill, megis y Wermod Lwyd (*Artemisia absinthium).*
Mae gan y rhywogaeth goesyn glas sy'n tyfu hyd at 45cm o uchder, a blodau glasgoch. Mae'n cynhyrchu toreth o hadau (gan gael trafferth eu gwasgaru ar brydiau), ond gall ei bresenoldeb fod yn anghyson o flwyddyn i flwyddyn ar ambell i safle. Mae'n aelod o deulu Gorfanhadlen, sydd ar y cyfan yn ffafrio hafau cynnes. Cysylltir y rhywogaeth fel arfer gyda glaswelltir sych, heb ei darfu, ar briddoedd alcali, ac mae'r mwyafrif o gofnodion Prydeinig yn eu disgrifio ar hen bonciau/ymylon lonydd neu laswelltiroedd arfordirol/ar glogwyni.




**Gwasgariad yn Sir Benfro**
Cafodd ei ail-ganfod yn Ninbych-y-pysgod yn 2014, yn tyfu ar allt dywodlyd serth ar galchfaen Bryn y Felin. Gynt yr oedd i'w gael ar randiroedd nepell o'r bryn, ble mae cofnodion ohono rhwng 1906 a 1932.

Mae un cofnod arall ohono o'r cyfnod cyn 1970, yn Bosherston ar y llwybr rhwng y bont werdd a Broadhaven yn 1942.

**Maint y boblogaeth**
Mae ymddangosiadau Gorfanhadlen Lasgoch ym Maenorbŷr yn anghyson braidd (Ni chafodd ei weld yn 1998 nac 1999). Ar y prif safle (glaswelltir twyn sefydlog), mae'r nifer o goesynnau blodeuog a welwyd dros y 14 mlynedd ddiwethaf wedi amrywio o un (2000; 2002) i 40 clwstwr yn 1991, rhai gyda nifer o goesynnau, a 48 yn 1997. Ar yr ail safle (dan wal y fynwent) y cyfrifiad uchaf o'r un cyfnod oedd 6 (1991). Er chwilio manwl nid yw wedi'i weld ym Maenorbŷr ers 2005, pan gafwyd 7 o goesynnau blodeuog ar y prif safle.

Gwelwyd 6 pigyn blodeuog yn agos i'w gilydd yn Ninbych-y-pysgod yn 2014.

**Tueddiadau**
O ganlyniad i ailymddangosiad y rhywogaeth yn Ninbych-y-pysgod yn 2014, a'i ddiflaniad o Faenorbŷr yn 2005, mae'n anodd adnabod tueddiadau'r rhywogaeth yn Sir Benfro.

**Statws Cadwriaethol**
Ewrop: Nid yw dan fygythiad ar lefel Ewropeaidd.

DU: Wedi'i restru fel 'dan fygythiad' yn llyfrau Data Coch (planhigion fasgwlaidd) Prydain a Lloegr. Cymru: Wedi ei restru fel 'mewn perygl difrifol' yn y rhestr Data Coch (planhigion fasgwlaidd). Y poblogaethau ym Mhenfro yw'r unig rai sy'n bodoli yng Nghymru. Cafodd ffiniau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbenig Freshwater East a Skrinkle Haven eu newid er mwyn cynnwys y safle ym Maenorbŷr. Mae Gorfanhadlen Glasgoch wedi'i restru yn Adran 8 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

# Peryglon

Rhestrir y peryglon i'r rhywogaeth isod:

- **Darfyddiad neu newidiadau mewn rheolaeth o laswelltir:** Ym Maenorbŷr, mae Gorfanhadlen Lasgoch wedi ei gyfyngu ar y cyfan i un safle o laswelltir twyn sefydlog sydd (yn y gorffennol) wedi'i bori gan ferlod, gwartheg, a chwningod. Roedd y dwysedd pori yn hanfodol wrth gynnal lawntiau byr, agored, lle gallai'r rhywogaeth letyol (Milddail) ffynnu. Gallai'r lawntiau byr hefyd fod wedi peri i'r pridd gynhesu, gan hybu eginiad a datblygiad y planhigyn, sydd â'i fwyafrif dan yr wyneb. Pan ddarfyddid pori, ac yn absenoldeb torri cyson, datblygodd glaswelltir dwys ar y safle nad oedd yn ffafriol i'r rhywogaeth letyol. Adferwyd torri blynyddol ar y safle ddiwedd haf yn 1998, gan wella cyflwr y glaswelltir bron yn unionsyth. Ond mae'r Ddraenen Ddu a rhedyn yn parhau i beryglu'r rhywogaeth, ac efallai bydd angen dechrau ychwanegu pori ysgafn dros yr hydref a'r gaeaf yn ogystal â'r torri (gan ferlod neu eifr er enghraifft). Byddai pori merlod yn help i greu a chynnal ardaloedd agored o dir moel, allai helpu sicrhau fod yr hedyn yn gallu cysylltu â'r rhywogaeth letyol.

- **Newidiadau yn lefelau mwynau'r pridd:** Mae Gorfanhadlen Lasgoch yn tueddu i ffafrio tir tywodlyd alcali, sy'n draenio'n gyflym a chyda lefelau mwynau isel. Byddai cynyddu lefelau mwynau yn uniongyrchol ar y safle, neu o ffynonellau allanol megis treigl gwrtaith, yn hybu tyfiant gwellt bras tal cystadleuol, megis Troed-y-ceiliog, ar draul y rhywogaeth letyol. Gan nad yw pori'n ymarferol yn Ninbych-y-pysgod, dylid cario unrhyw ddeunydd planhigol sydd wedi'i dorri o'r safle.

- **Aflonyddu ffisegol difrifol:** Gall aflonyddu ffisegol difrifol (megis sathru ac erydiad o ganlyniad i gynnydd mewn gweithgareddau hamdden ar y safle) arwain at ddirywiad y cynefin, a niwed i'r pigynau blodeuog. Mae yna dystiolaeth sy'n awgrymu y gall Gorfanhadlen Lasgoch fuddio o ychydig o aflonyddu tir wedi'i reoli, and mae lefelau uwch yn arwain at ddirywiad ym mhoblogaeth y rhywogaeth letyol,

newidiadau mawr yn strwythur y pridd, a newid yn y micro-amgylchedd a allai fod yn fygythiad mawr i'r rhywogaeth.

- **Defnydd o chwynladdwyr:** Mae chwynladdwyr yn cael eu defnyddio ar ymylon y safle yn Ninbych-y-pysgod a gallai beri niwed i'r boblogaeth.

- **Darnio Cynefinoedd Addas:** Mae'n bosibl mai gweddillion meta-boblogaeth yw'r safle ym Maenorbŷr- a gallai'r ddau gyn-safle fod wedi bod â chysylltiadau agos â Maenorbŷr. Dylid ystyried adfer unrhyw gynefinoedd addas ar y ddau gyn-safle, ac ailgyflwyno'r rhywogaeth yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ystagbwll. Dylid cysidro hefyd casglu hadau mewn blynyddoedd llwyddiannus er mwyn hwyluso gwasgariad ac ailgyflwyno.

- **Hinsawdd (hirdymor) a thywydd (tymor byr):** Mae teulu Gorfanhadlen ar y cyfan yn ffafrio safleoedd cynnes, sydd yn draenio'n gyflym. Gall yr hafau cynhesach a sychach a ddaw o sgil cynhesu byd eang fod o fudd i'r rhywogaeth, tra gall cyfres o hafau gwlyb ac oer gael effaith niweidiol yn y tymor byr. Gall effaith y tywydd a'r hinsawdd fod yn sylweddol, o gysidro nad oes gan y rhywogaeth lawer o boblogaethau hyd arfordir deheuol a dwyreiniol Lloegr. Efallai bod modd lleihau effaith hafau oer a gwlyb trwy sicrhau bod ystod y rhywogaeth yn cael ei adfer (os yn bosibl) a bod cyflwr y cynefinoedd yn cael ei wella o fewn ei ystod bresennol.

- **Argaeledd y rhywogaeth letyol:** Mae argaeledd y rhywogaeth letyol, Milddail, yn bwysig iawn i oroesiad Gorfanhadlen Lasgoch. Tybir fod poblogaeth Milddail wedi dirywio yn safle Maenorbŷr, ac efallai ei fod wedi'i golli neu ei leihau yn y safleoedd hanesyddol. Mae Milddail yn gallu adfywio o ddarnau o rhisom, ac mae hadau sy'n glanio ar dir moel yn egino'n gyflym. Yn Seland Newydd mae Milddail yn cael ei gysidro'n rhywogaeth sy'n gallu dioddef cyfnodau sych, ac yn dipyn o boendod i ffermwyr grawn gan ei fod yn ymledu tir aredig yn gyflym iawn. Wrth i'r lawntiau glaswellt yn y safleoedd Gorfanhadlen Lasgoch sefydlogi a chael eu cau, mae'r safleoedd egino yn diflannu ac mae'r tir yn gwlychu ac yn dod yn llai addas. Mae diffyg aflonyddu ar y tir hefyd yn lleihau'r cyfleodd i rhisomau ddarnio a gwasgaru.

# Cynlluniau a Pholisïau Perthnasol a Ffynonellau Gwybodaeth Bellach

Dyma'r cynlluniau/polisïau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar reolaeth y rhywogaethau hyn yn Sir Benfro:

- Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Arfordirol. I'w gael yma: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36391
- Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Glaswelltiroedd. I'w gael yma: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36385

- Datganiad Rheolaeth SSSI Freshwater East i Skrinkle Haven. I'w gael yma: http://www.ccgc.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/special-landscapes--sites/protected-landscape/sssis/sssi-sites/freshwater-east-cliffs.aspx
- Prajs, B. (2010) *Orobanche purpurea* on its newly discovered site near Zaton Dolna (NW Poland): the problem of protection of a threatened parasitic plant species. Biodiv. Res. Conserv. 17; 33-38.

# Amcanion y Cynllun

| Amcan | Terfyn | Sylwadau |
|---|---|---|
| Atal unrhyw leihad yng ngwasgariad y rhywogaeth yn Ninbych-y-pysgod a Maenorbŷr. | Yn parhau | |
| Sicrhau bod pigau blodeuog yn ymddangos ar y safleoedd hysbys o leiaf dair blwyddyn ym mhob chwech. | Yn parhau | |
| Dylai'r rhywogaeth letyol, Milddail, gael ei wasgaru trwy'r safleoedd hysbys gan orchuddio 10%, a chyda amledd o 80%. | Yn parhau | |

# Gweithredoedd a Awgrymir

| Gweithred | Adroddiad gan | Prif rôl | Cynnydd / Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| Monitro: Arolwg blynyddol o bigau blodeuog. | | BSBI | |
| Rheolaeth safle, er mwyn hybu cynnydd yn y rhywogaeth letyol ac i wella safon cynefinoedd glaswellt ar y prif safleoedd yn Ninbych-y-pysgod a Maenorbŷr. | | | Gwaith cynyddu poblogaeth Milddail ar safleodd allweddol )ail-blannu, ysgriffio, etc.) |
| Gwarchod safleoedd: i'w gyflawni trwy ymgynghoriadau statudol gyda CNC, trwy fecanwaith y SSSI ym Maenorbŷr, a'n uniongyrchol â Chyngor Sir Benfro sy'n berchen a'n rheoli'r safle yn Ninbych-y-pysgod. | | | |
| Rheoli mynediad ar gyfer gweithgareddau hamdden, gan leihau effaith aflonyddiadau (e.e. sathru gormodol). | | | |
| Cyflawni treialon er mwyn cynyddu poblogaethau Milddail, efallai ar safleoedd heb Gorfanhadlen Lasgoch (i osgoi | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| niweidio); aredig graddfa fechan, ogedu, neu gloddio, | | | |
| Canfuwyd pigyn blodeuog marw ar laswelltir gwersyll ym Maenorbŷr yn 2014. Yn tyfu mewn ardal a chyfoeth o Filddail, ond nid oedd modd gwneud adnabyddiad pendant. Angen arolwg y safle yn haf 2015. | | | |
| Cysidro adfer cynefinoedd ac ail-gyflwyno mewn safleoedd allai wella cysylltedd er mwyn ail-sefydlu'r boblogaeth hanesyddol (os yn briodol). | | | |
| Cysidro aredig bas gyda phalwr neu offer arall ar safle Maenorbŷr. | | | |
| Clirio draenen ddu yn achlysurol a phrysgwydd eraill yn Ninbych-y-pysgod, ble mae'r allt laswellt dan fygythiad prysgwydd. | | | |